

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

15 Tachwedd 2020
Teyrnas III

CYHOEDDIADAU'R SUL

GWASANAETHAU HEDDIW

Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr Eglwys heddiw am 9.00am. Darlledir y podlediadau ar gyfer addoli ar yr aelwyd yn ôl yr arfer.

GWASANAETH SUL YN YR EGLWYS

Cynhelir gwasanaeth o'r Foreol Weddi y nesaf am 9.00am. Oherwydd y rheolau ymbellhau cymdeithasol mae'r nifer a all fod yn yr eglwys yn gyfyngedig. Felly, os ydych yn bwriadu dod i'r gwasanaeth yn EDS y Sul nesaf a wnewch chi gysylltu â Marian Fairclough er mwyn iddi gadw sedd i chi. Anfonwch e-bost: faircloughmarian@gmail.com neu ffoniwch: 0290 2088 5151 erbyn 4.00 o'r gloch prynhawn Sadwrn. Unwaith y bydd y seddi wedi'u llenwi, ni allwn adael i unrhyw un arall ddod i mewn i'r eglwys.

PATRWM Y GWASANAETHAU AM WEDDILL Y MIS

Sul 22 Tachwedd – Y Foreol Weddi am 9.00am
Sul 29 Tachwedd – Y Cymun Bendigaid am 6.00pm
Bydd y podlediadau yn parhau.

COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore Coffi a Chlonc rhithiol bore Sadwrn 21 Tachwedd am 10.30am. Os hoffech ragor o fanylion cysylltwch â Siân Eleri Thomas thomasse2@hotmail.com.

Dyma'r manylion cysylltu:

Ewch at <http://www.zoom.us>

Cliciwch ar "Join a Meeting"

Rhif Adnabod y Cyfarfod: 98500034319

Cyfrinair: 387600

FESTRI'R PASG

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi gofyn i eglwysi gynnal y Festrïoedd Pasg erbyn 31 Tachwedd. Bu raid eu gohirio oherwydd y Cloi Mawr. Mae modd cynnal Festrï'r Pasg dros Zoom ac fe benderfynodd y CPE fwrw ymlaen a chynnal **ein Festrï dros Zoom nos Lun 23 Tachwedd am 7.00pm**. Dosbarthwyd yr adroddiad blynyddol wythnos diwethaf. Os nad ydych wedi derbyn copi, neu os hoffech dderbyn copi caled mynnwch air â Rhys Jones os gwelwch yn dda.

SYMPOSIWM BEIBL 1620 – LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn trefnu Symposiwm i nodi 400mlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620 dros Zoom yn ystod mis Tachwedd am 6pm. Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru dilynwch y dolenni isod.

18 Tachwedd@6yh

Symposiwm Beibl 1620: 'Beiblau i amryw bobloedd' - Peter Williams a Beibl 1770

Mae 2020 yn 250 mlwyddiant cyhoeddi 'Beibl Peter Williams' yn 1770, sef y Beibl cyntaf i gael ei argraffu yng Nghymru yn hytrach nag yn Llundain, Rhydychen neu Gaergrawnt. Yn y drydedd o sgysiau i ddathlu pedwar canmlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620 bydd Dr Eryn White yn olrhain hanes poblogrwydd 'Beibl Peter Williams' dros gyfnod hir - cafwyd dros 30 argraffiad ohono rhwng 1770 a 1900.

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/symposiwm-beibl-1620-bible-symposium-beiblau-i-amryw-bobloedd-peter-williams-a-beibl-1770/e-ejlbom>

25 Tachwedd @6yh

Symposiwm Beibl 1620: Thomas Charles, Mary Jones a Chymdeithas y Beibl

I gloi'r gyfres o sgysiau yn dathlu pedwar canmlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620 bydd yr Athro E Wyn James yn canolbwyntio'n arbennig ar hanes Thomas Charles a Mary Jones, y ferch y mae hanes ei thaith i'r Bala i brynu Beibl mor gyfarwydd i gynifer ohonom. Cawn gip hefyd ar gynnwrf cynhyrchu a lledaenu Beiblau yn y 19eg ganrif yng Nghymru a thu hwnt.

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/symposiwm-beibl-1620-bible-symposium-thomas-charles-mary-jones-a-chymdeithas-y-beibl/e-dvagko>

SUL NESAF YN YR EGLWYS:

Teyrnas IV – Crist y Brenin

(Sul cyn yr Adfent)

9.00am – Y Foreol Weddi a Phregeth

GWASANAETHAU HEDDIW: Teyrnas III

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn ymddangos gyda'r e-bost fydd yn cynnwys y daflen hon. Hefyd, mae modd ymweld â gwefan yr eglwys i ddod o hyd i'n gwasanaethau ar lein.

Bydd podlediad o'r Hwyrrol Weddi am 6pm heno yn ôl yr arfer. Bydd y linc yn cael ei anfon allan yn hwyrach yn y prynhawn.

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiw'n yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach, John Hicks, Rob James, Margaret Jones, Sally Lewis, Catrin Morgan, John Morgan, Nia Roberts, Ceri Saunders, Dawn Parry Sawdon, Gwen Thomas, Jack Thomas (Offeiriad), Joan Thomas, ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiw'n am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrrol Weddi (glas tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

Y Foreol Weddi:

Salm 90
Seffaneia 1:7, 12-18
Mathew 25:14-30

Yr Hwyrrol Weddi:

Salm 98
Daniel 10:19-21
Datguddiad 4

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y gwasanaeth boreol
Thema:

**Cydganwn foliant rhwydd
I'n Harglwydd, gweddus yw;
Yn nerth ein hiechyd llawenhawn,
Mawr ydyw dawn ein Duw.**

**O plygwn bawb ei lin
O flaen ein Brenin mawr;
Addolwn ef, ein dyled yw,
'R ym arno'n byw bob awr.**

*W. Rees (Gwilym Hiraethog)
Emynau'r Llan 357*

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
A'th gadw di yng nghariad Crist.

**Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol,
edrych arnom yn awr mewn gallu a thrugaredd.
Bydded i'th nerth orchfygu ein gwendid,
i'th lewyrch oleuo ein dallineb,
ac i'th Ysbryd ein denu at y cariad hwnnw
sy'n cael ei ddangos a'i gynnig inni gan dy Fab,
ein Gwardwr Iesu Grist. Amen.**

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.
Arglwydd, trugarha

Cyffeswn yn ostyngedig ein pechodau gerbron yr Hollalluog Dduw.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
Maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni. Amen.**

**Golched Duw ein hunanoldeb a'n pechod ymaith,
llanwed ein calonnau â'i dangnefedd, a'n bywydau
â'i glod: trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen,**

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd.
Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.
Arglwydd Dduw, Frenin nefol,
Dduw Dad Hollalluog.**

**O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist;
O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,
sy'n dwyn ymaith bechod y byd,
trugarha wrthym;
tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,
derbyn ein gweddi.**

**Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd;
ti yn unig yw'r Arglwydd;
ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân,
sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.**

Colect: Teyrnas III

Dad nefol, y datguddiwyd dy fendigedig Fab
i ddatod gweithredoedd y diafol a'n gwneud ni'n blant

i Dduw ac yn etifeddion bywyd tragwyddol, caniatâ i ni, a'r gobaith hwn gennym, ein puro ein hunain fel y mae ef yn bur; fel, pan ddaw drachefn mewn nerth a gogoniant mawr y gwneir ni'n debyg iddo ef yn ei deyrnas ogoneddus a thragwyddol; caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad I: *Seffaneia 1:12-18*

"Yn yr amser hwnnw chwiliat Jerwsalem â llusernau, a chosbaf y rhai sy'n ymbesgi uwch eu gwaddod ac yn dweud wrthynt eu hunain, 'Ni wna'r Arglwydd na da na drwg.' Anrheithir eu cyfoeth a difethir eu tai; codant dai, ond ni chânt fyw ynddynt; plannant winllannoedd, ond ni chânt yfed eu gwin." Y mae dydd mawr yr Arglwydd yn agos, yn agos ac yn dod yn gyflym; chwerw yw trwst dydd yr Arglwydd, ac yna y gwaedda'r rhyfelwr yn uchel. Dydd dicter yw'r dydd hwnnw, dydd blinder a gofid, dydd dinistr a difrod, dydd tywyllwch a düwch, dydd cymylau a chaddug, dydd utgorn a bloedd rhyfel yn erbyn y dinasoedd caerog ac yn erbyn y tyrau uchel. "Mi ddof â thrybini ar bobl, a cherddant fel deillion; am iddynt bechu yn erbyn yr Arglwydd tywelltir eu gwaed fel llwch a'u perfedd fel tom, ac ni all eu harian na'u haur eu gwaredu." Ar ddydd dicter yr Arglwydd ysir yr holl dir â thân ei lid, oherwydd gwna ddiwedd, ie, yn fuan, ar holl drigolion y ddaear.

Salm 90:1-8; 12

Ti Arglwydd fuost yn breswylfa i ni: ym mhob cenhedlaeth.

Cyn gwneuthur y mynyddoedd a llunio ohonot y ddaear ar byd: ti hefyd wyt Dduw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb.

Trôï ddyn i ddinistr: a dywedi, Dychwelwch feibion dynion.

Canys mil o fynyddoedd dynt yn dy olwg di fel doe: wedi yr êl heibio ac fel gwylidwriaeth nos.

Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant, y maent fel hun: y bore y maent fel llysiuyn a newidir.

Y bore y blodeua ac y tyf: prynhawn y torrir ef ymaith ac y gwywa.

Canys yn dy ddiig y difethwyd ni: ac yn dy lidiowgrwydd y'n brawychwyd.

Gosodaist ein hanwiredd ger dy fron: ein dirgel bechodau yng ngoleuni dy wyneb.

Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau: fel y dygom ein calon i ddoethineb.

Darlleniad II: *Mathew 25:14-30*

"Y mae fel dyn a oedd yn mynd oddi cartref ac a alwodd ei weision a rhoi ei eiddo yn eu gofal. I un fe

roddodd bum cod o arian, i un arall ddwy, i un arall un, i bob un yn ôl ei allu, ac fe aeth oddi cartref. Ar unwaith aeth yr un a dderbyniodd bum cod a masnachu â hwy, ac fe enillodd atynt bump arall. Felly hefyd enillodd yr un a gafodd ddwy god ddwy arall atynt. Ond y sawl a dderbyniodd un god, aeth ef ymaith a chloddio twll yn y ddaear a chuddio arian ei feistr. Ymhen cryn dipyn o amser daeth meistr y gweision hynny yn ôl ac fe adolygodd eu cyfrifon hwy. Daeth yr un a dderbyniodd bum cod a chyflwyno iddo bump arall. 'Meistr,' meddai, 'rhoddaist bum cod o arian yn fy ngofal; dyma bum cod arall a enillais i atynt.' 'Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon,' meddai ei feistr wrtho, 'buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.' Yna daeth yr un â'r ddwy god, a dywedodd, 'Meistr, rhoddaist ddwy god o arian yn fy ngofal; dyma ddwy god arall a enillais i atynt.' Meddai ei feistr wrtho, 'Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon; buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal; tyrd i ymuno yn llawenydd dy feistr.' Yna daeth yr un oedd wedi derbyn un god, a dywedodd, 'Meistr, gwyddwn dy fod yn ddyn caled, yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill. Yn fy ofn euthum a chuddio dy god o arian yn y ddaear. Dyma i ti dy eiddo yn ôl.' Atebodd ei feistr ef, 'Y gwas drwg a diog, yr oeddit yn gwybod, meddi, fy mod yn medi lle heuodd eraill ac yn casglu lle gwasgarodd eraill. Dylit felly fod wedi gosod fy arian yn y banc, a buasai fy eiddo wedi ennill llog erbyn i mi ddod i'w hawlio. Felly cymerwch y god o arian oddi arno a rhowch hi i'r un a chanddo ddeg cod. Oherwydd i bawb y mae ganddo y rhoddir, a bydd ar ben ei ddigon, ond oddi ar yr hwn nad oes ganddo fe gymerir hyd yn oed hynny sydd ganddo. A bwriwch y gwas diwerth i'r tywyllwch eithaf; bydd yno wyllo a rhincian dannedd.'

Myfyrdod:

"Ymhen cryn dipyn o amser daeth meistr y gweision hynny yn ôl ac fe adolygodd eu cyfrifon hwy".

Mathew 25:19

Mae tymor y Deyrnas yn canolbwyntio ar rai o themâu trymion y ffydd Gristionogol. Themâu efallai bod yn well gennym beidio â chanolbwyntio arnynt megis gofynion Teyrnas Dduw, Dydd yr Arglwydd, yr ailddyfodiad, barn a brenhiniaeth Crist. Mae'n dymor sydd yn ein hatgoffa ni ein bod fel dilynwyr Iesu yn byw o dan ei lywodraeth ef, ac mai ein galwad yw cyflawni ei ewyllys ef yn ein bywydau beunyddiol. Ond wrth i ni ystyried y themâu trymion hyn, mae'n bwysig i ni gofio mai cariad a thrugaredd, maddeuant ac adferiad yw natur ein Harglwydd Iesu Grist. Wrth i ni ei garu ef, wrth i ni ei wasanaethu ef, wrth i ni ymddiried ynddo, fe wyddom ei fod yntau yn ein caru

ac yn ymddiried ynom ni. Wrth ddarllen yr efengylau fe welwn mai dymuniad Iesu yw ein bod yn ffynnu fel unigolion, ac yn dod o hyd i fywyd, bywyd yn ei holl gyflawnder. Ond efallai mai yma y gwelwn baradocs mawr bywyd, sef trwy ein hymroddiad i les eraill a thrwy wasanaethu ein cyd-ddyn y dysgwn ni ystyr byw, a byw yn ei holl gyflawnder. Dyma'r esiampl ryfeddol a rydd Iesu i ni yn yr efengylau, dyma un o egwyddorion mawr y Deyrnas.

Mae egwyddorion y deyrnas yn dueddol o fynd yn groes graen i egwyddorion y byd ac yn groes graen i'n tueddiadau dynol. Y tueddiad dynol yw gogwyddo tua'r hunanol a'r hunan-les. Mae'r byd yn ein cyflyru i weithio dros yr hyn sydd yn mynd i fod o les i ni ein hunain. Mae'n tueddiadau dynol yn ein gwrthio i wneud bywyd mor ddidrafferth â phosib i ni ein hunain. Ond mae Iesu Grist yn ein galw i ystyried ein cyfrifoldeb tuag at ein cymydog. Mae Iesu Grist yn ein galw ni i fod yn weision i eraill ac i ddefnyddio ein doniau er budd eraill ac er lles y gymuned ehangach. Yn ôl ein parodrwydd i ddefnyddio'r doniau a ymddiriedwyd i ni, yn ôl ein gallu, y bydd Duw yn ein barnu. Yma mae'n dda i ni gofio geiriau'r Salmwydd, "Duw fydd yn barnu", a diolch byth am hynny, oherwydd "cyfiawnder a barn yw sylfaen ei orsedd".

A Duw yn barnu yw testun ein darlleniadau y bore 'ma. Yn y darlleniad o lyfr y proffwyd Seffeneia cawn Dduw yn barnu pobl Jerwsalem a hynny'n llym oherwydd iddynt osod eu holl ymddiriedaeth yn eu llwyddiant eu hunain ac yn eu cyfoeth eu hunain. Roedd y cyfoethogion yn ennill rhagor o gyfoeth iddynt eu hunain trwy dwyll ac ar draul y tlawd. Yn lle defnyddio eu cyfoeth er budd eraill a gogoneddu Duw, aethant ar ôl duwiau gau a dywedent, "Ni wna'r Arglwydd na da na drwg". Roeddent yn rhy brysur yn adeiladu tai a phlannu gwinllannoedd, yn rhy brysur i weld y caledi dybryd oedd eu cymdogion yn ei ddioddef, heb sôn am estyn llaw o gymorth iddynt. Roeddent yn gwbl hunan-fodlon, heb weld fod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eraill. Felly, fe gawn Seffeneia yn proffwydo yn erbyn y bobl hyn oherwydd eu difaterwch, yn cyhoeddi dyfodiad dydd yr Arglwydd pan fyddai Duw yn dod a chwilio Jerwsalem â llusernau i daflu goleuni ym mhob twll a chornel, a datgelu y pechodau hynny oedd yn cuddio yn y cysgodion. Nid oedd dim na neb yn cael osgoi dydd yr Arglwydd. "Chwerw yw trwst dydd yr Arglwydd", meddai'r proffwyd Seffeneia, ac ar y dydd hwnnw, "ni all eu harian na'u haur eu gwaredu". Yma mae'r proffwyd Seffeneia yn ein dysgu bod Duw yn ddiuedd ei farn, ac yn barnu mewn cyfiawnder. Yn wyneb barn gyfiawn Duw, y mae cyfoeth ariannol yn

ddiwerth; nid oes modd prynu ffafr Duw. Barnu y mae Duw yn ôl y cyfoeth o gariad sydd yn ein gweithredoedd.

Yn y darlleniad o'r efengyl heddiw, yn nameg y codau arian, cawn olwg arall ar natur "barn". Nid yw'r ddameg hon yn un hawdd, mae ei hergyd yn galed. Ond dyna ddiben dameg, trwy gyfrwng stori, mae'n cyfleu ysgytwad ac yn creu argraff ar meddwl y gwrandawr. Ar ôl gwrandawr ar un o ddamhegion Iesu ac os dywedwn, dyna stori fach neis, yr ydym wedi methu'r ergyd a diben Iesu wrth ei lfaru.

Ac mae'r ddameg hon yn dechrau'n addawol iawn. Mae rhyw feistr, o'i haelioni, yn rhoi symiau sylweddol o arian i dri o'i weision er mwyn iddynt fynd ati i'w ddefnyddio a'u buddsoddi. Ystyr y gair cod yw pwrs – "pwrs o arian". Ni wn faint o arian oedd ym mhob cod, ond fe allwn ni ddychmygu ei fod yn swm sylweddol. Mae'r meistr yn rhoi i un pum cod, i un arall dwy ac i un arall un. Roedd y meistr wedi dewis ei weision yn ofalus, ac wedi "rhoi i bob un yn ôl ei allu". Doedd y meistr ddim yn disgwyl i'r un ohonynt wneud yr amhosib, na chwaith gyflawni'r amhosib â'r arian. Yr unig beth yr oedd y meistr yn ei ddisgwyl ganddynt oedd eu bod yn defnyddio'r arian yn ddoeth. Nid yw'r meistr yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd iddynt ynglŷn â beth i wneud â'r arian; roedd gan y tri rwydd hynt i wneud fel y mynnent ag ef.

Ar ôl amser daeth y meistr yn ôl i adolygu eu cyfrifon. Roedd dau o'r gweision wedi masnachu'n ddoeth, ac felly wedi dyblu'r arian. I'r ddau hyn, fe ddywedodd y meistr wrthynt, "Ardderchog, fy ngwas da a ffyddlon; buost yn ffyddlon wrth ofalu am ychydig, fe osodaf lawer yn dy ofal". Roedd y ddau was hyn wedi bod yn ddigon dewr i anturio, i fod yn feiddgar, i fod yn fentrus gan ddefnyddio eu gallu i ddefnyddio'r arian a osodwyd yn eu gofal yn ddoeth. Yn ystod y cyfnod o aros i'r meistr ddychwelyd fe ddefnyddiodd y ddau was eu hamser a'r arian yn ddoeth. Mawr oedd diolch y meistr iddynt, a mawr oedd eu gwobr ganddo.

Ond mae un gwas bach ar ôl. Mae'n rhaid imi gyfaddef, bod fy nghydymdeimlad tuag at y gwas hwn yn fawr. A dwi'n siŵr wrth grefftio'r ddameg hon, bod Iesu am i ni deimlo trugaredd tuag ato. Dyma'r gwas a oedd wedi derbyn un god o arian yn unig. Roedd cymaint o ofn y meistr arno fel yr aeth ati i guddio'r arian er mwyn ei gadw'n ddiogel. Roedd yn rhy ofnus neu efallai yn ansicr o'i allu ei hun i anturio a defnyddio'r arian. Efallai bod ganddo ormod o ofn y canlyniadau petai'n colli'r cyfan ar fenter a fyddai'n

methu. Mae rhan ohonom, dwi'n siŵr, yn gweld y gwas hwn yn cymryd o ddifri ei gyfrifoldeb o ddiogelu'r arian. Wedi'r cyfan, nid ei eiddo ef oedd yr arian hwn. Fe allwn ni ei ganmol am fod yn ofalus, yn gyfrifol ac yn ddoeth. Gwell fyddai rhoi yr arian yn ôl yn gyflawn, na chyflwyno i'r meistr golledion.

Ond na, a dyma'r ergyd. Mae'r meistr yn ei alw yn "was drwg a diog" am iddo wneud dim ymdrech o gwbl i ddefnyddio'r arian a roddwyd i'w ofal, heb hyd yn oed ei roi yn y banc er mwyn iddo ennill llog.

Pam y fath feirniadaeth hallt ac ysgytiol a'r condemniad terfynol: "A bwriwch y gwas diwerth i'r tywyllwch eithaf"? Does dim llawer o drugaredd yma.

Ond cofiwn mai dameg yw hon, ac mae geiriau hallt Iesu yno i roi ysgytwad i'w wrandawyr gwreiddiol, fel i ninnau. Mae nifer yn meddwl mai cyfeirio'r ddameg hon tuag y Phariseaid oedd Iesu. Credai'r rhain mai eu prif ddyletswydd oedd cadw a diogelu'r hyn a ymddiriedwyd iddynt gan Dduw, sef y gyfraith a'r defodau Iddewig. Y tristwch yw mai trwy wneud hyn yr aeth y ffydd yn fewnblyg, yn drysor cudd i ychydig, yn hytrach na thrysor ffydd i bawb.

Fel y Phariseaid gynt, y mae angen ysgytwad arnom ninnau hefyd. Yn rhy fynych y ceisiwn gadw a diogelu trysor ein ffydd a'i draddodiadau cyfoethog a hynny yn aml ar draul bod yn anturus, beiddgar a mentrus yn ein ffydd a rhannu ein ffydd ag eraill. Y mae Duw wedi rhoi i ni ein doniau unigryw. Y mae Duw wedi rhoi inni drysor ein ffydd i'n cynnal. Boed inni ddysgu defnyddio ein doniau i rannu ein ffydd, yn ôl ein gallu, mewn gwasanaeth llawen i eraill. Dyna ein galwad, dyna ein braint. Dyna'r trysor y mae Duw wedi ei ymddiried i ni; na foed i ni ei guddio rhag neb. Amen.

Credo'r Apostolion

Dywedwn gyda'n gilydd.

**Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog,
creawdwr nef a daear.**

**Ac yn Iesu Grist ei unig Fab ef, ein Harglwydd ni,
yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân,
a aned o Fair Forwyn,
a ddioddefodd dan Pontius Pilat,
a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd.
Disgynnodd i uffern.**

**Y trydydd dydd y cyfododd o feirw,
a esgynnodd i'r nefoedd,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw**

**Dad Hollgyfoethog;
oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw.**

**Credaf yn yr Ysbryd Glân;
yr Eglwys Lân Gatholig;
cymun y saint;
maddeuant pechodau;
atgyfodiad y corff;
a'r bywyd tragwyddol. Amen.**

Yr Ymbiliau

Gadewch inni weddio ar Dduw, sy'n rhoi i ni y doniau i gyflawni gwaith y Deyrnas.

Bydded i bawb sydd yn cyffesu dy enw fod yn stiwardiaid ffyddlon ar yr hun a ymddiriedwyd iddynt. Wrth inni edrych am ddyfodiad Crist gweddiwn dros yr eglwys yng Nghymru a'r eglwys fyd-eang y bydd Cristnogion yn defnyddio eu doniau a'u hamser yn hael, yn gariadus yng ngwaith y Deyrnas. Dduw grasol,
Clyw ein gweddi.

Lle mae masnachu ar droed yn y byd, gyrr oddi yno anonestrwydd ac hunanoldeb. Dysga bawb yr angen sydd i rannu adnoddau'r byd yn decach ymhlith holl blant y llawr. Gweddiwn dros bawb sy'n siarad dros gyfiawnder yn wyneb wrthwynebiad ffyrnig, dros bawb sy'n condemnio llygredd er bod hynny'n golygu colli eu bywoliaeth; dros bawb sy'n gwrthsefyll temtasiwn ac yn gwrthod cyfoeth er mwyn i'r byd fod yn lle tecach i bawb.

Dduw grasol
Clyw ein gweddi.

Tynn bawb yn ein cymuned i mewn i'th wasanaeth, fel trwy ein gofal y dangoswn ni i'n gilydd yn pethau ymarferol y gallwn brwydro yn erbyn ymlediad y coronfeirws. Tywynna dy gariad arnom ni, ein teuluoedd a'n ffrindiau, er mwyn inni fedru byw fel plant y goleuni.

Dduw grasol
Clyw ein gweddi.

Bydd gyda'r rhai sy'n dioddef mewn corff, meddwl neu ysbryd. Diolchwn i ti am y rhai sy'n defnyddio eu doniau, eu medr a'u profiad i gwrdd ag anghenion pobl eraill.

Dduw grasol
Clyw ein gweddi.

Gwrando ni wrth inni gofio'r rhai hynny a fu farw yn ffydd Grist, yn ôl dy addewidion, caniatâ i ni, gyda hwy, ran yn dy deyrnas dragwyddol.

Dduw grasol

Clyw ein gweddi.

Dad trugarog,

Derbyn y gweddiâu hyn

Er mwyn dy fab,

Ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,

Tro di ein nos yn ddydd;

Pâr inni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi

Dan lewyrch gras a ffydd.

Tyrd atom ni, O Luniwr pob rhyw harddwch,

Rho inni'r doniau glân;

Tyn ni yn ôl i afael dy hyfrydwch

Lle mae'r dragwyddol gân.

Tyrd atom ni, Arweinydd pererinion,

Dwg ni i ffordd lesâd;

Tydi dy hun sy'n tywys drwy'r treialon,

O derbyn ein mawrhad.

Tyrd atom ni, O Dad ein Harglwydd Iesu,

I'n harwain ato ef;

Canolwn fyth yr hwn sydd yn gwaredu –

Bendigaid Fab y nef.

W. Rhys Nicholas

Emynau'r Llan 373

Cymun Ysbrydol

Cymun Ysbrydol.

Y mae'r Arglwydd yma.

Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd

bob amser ac ym mhob lle

yw diolch i ti, Dad Sanctaidd,

hollalluog a bythfywiol Dduw,

trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Sy'n arglwydd ar yr holl greadigaeth,

fel y bo iddo gyflwyno i ti

deyrnas fyd-eang a thragwyddol,

teyrnas bywyd a gwirionedd,

teyrnas gras a sancteiddrwydd,

teyrnas cyfiawnder

a chariad a thangnefedd.

Felly, gyda llu'r angylion

a holl gwmpeini'r nef,

cyhoeddwn ogoniant dy enw

ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,

Duw gallu a nerth,

Nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.

Hosanna yn y goruchaf.

Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.

Hosanna yn y goruchaf.

Cofio Sefydlu Swper yr Arglwydd yn ôl St Paul

Oherwydd fe dderbyniais i oddi wrth yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi: i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymryd bara; ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd, a dweud, "Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf." Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan, ar ôl swper, gan ddweud, "Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef, er cof amdanaf." Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw. I Corthiniaid 11: 23-26

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad,

yr hwn wyt yn y nefoedd,

sancteiddier dy enw,

deled dy deyrnas,

gwneled dy ewyllys;

megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol

a maddau i ni ein dyledion,

fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth;

eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,

a'r gallu, a'r gogoniant,

yn oes oesoedd. Amen.

Cymerwn ennyd i fyfyrion ar y Cymun Bendigaid, ac ar orchymyn Iesu, "Gwnewch hyn er cof amdanaf".

Gan gofio y troeon eisoes yr ydym wedi penlinio wrth ffwrdd y Cymun, ac estyn ein dwylo i dderbyn y bara,

corff Crist; ac yfed o'r un cwpan, gwaed Crist,
gweddiwn gyda'n gilydd:

**O Wynfydedig Arglwydd,
mewn undod â'th bobl ffyddlon ledled y byd,
gerbron pob allor yn dy Eglwys lle dethlir yr
Ewcharist,
dymunwn offrymu iti fawl a diolch.
Cyflwynaf i ti fy enaid a'm corff
gan daer ewyllysio bod yn un â thi'n wastadol.
Am na allaf yn awr dy dderbyn yn y Sacrament,
tyrd yn ysbrydol i'm calon.
Gwnaf fy hun yn un â thi,
cofleidiaf di â chalon, meddwl ac enaid.
Na foed fyth i ddim dy wahanu di oddi wrthyf;
fel y gallaf fyw a marw yn dy gariad. Amen.**

Angus Die

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.**

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw:
ei gariad sy'n dragywydd.

Gweddiwn gyda'n gilydd:

Dduw grasol, yr wyt yn rhoi sylwedd i'n gobaith:
dwg ni yn y diwedd at y bywyd cyflawn hwnnw yr
ydym yn dyheu amdano; trwy Iesu Grist ein
Hiachawdwr. Amen

**Dyma geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
Dyma un sy'n caru maddau
I droseddwy'r mawr eu bai;
Diolch iddo
Byth am gofio llwch y llawr.**

**Brenin tragwyddoldeb ydyw,
Llywydd daear lawr a ne';
Byth ni wêl tylwythau'r ddaear
Geidwad arall ond efe;
Mae e'n ddigon –
Y tragwyddol fywyd yw.**

**Mae'n rhoi bywyd ac ymgeledd
I rai'n gorwedd yn eu gwaed;
Gwisgo'r noeth a golchi'r aflan,
Codi'r truan ar ei draed:
Teilwng ydyw
O'r gogoniant oll am hyn.
1 & 2 Morgan Rhys
3 William Williams, Pantycelyn
Emynau'r Llan 276**

*Mae hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr Eglwys yng
Nghymru a phob gwasanaeth sydd ynddo yn eiddo Gwasg yr Eglwys yng
Nghymru 1984. Neu Y Cymun Bendigaid 2004*

Roots a Chaneuon Ffydd.

*Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984.
Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru Hawlfraint
Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011.
Colectau a Gweddiâu Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau.
Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003
Emynau – Caneuon Ffydd, Emynau'r Llan*

GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddio dros:

- Eglwys Ceylon, o dan oruchwyliaeth Archesgob Caergaint. Esgob Colombo, y Gwir Barchedig Dhiloraj Canagasabay; Esgob Kurunegala, y Gwir Barchedig Keerthisiri Fernando
- Plwyf Llangynwyd gyda Maesteg, y Parchedig Martyn Evans (Ficer); y Parchedig Geraint John (Curad).

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 16 Tachwedd: Margaret o'r Alban (c1054), Brenhines

Datguddiad 1:1-4; 2.1-5; Salm 1; Luc 18:35-43

Gweddiwn dros: Sabonidda-Ora (Nigeria), y Gwir Barchedig Augustine Ohilebo

Plwyf Troedrhiwgarth, y Parchedig Christopher Reaney (Ficer)

Dydd Mawrth 17 Tachwedd: Huw (1200), Esgob

Datguddiad 3:1-6, 14-22; Salm 15; Luc 19:1-10

Gweddiwn dros: Saldanha Bay (De Affrica), y Gwir Barchedig Raphael Hess

Deoniaeth Cwm Cynon, y Deon Gwlad, y Parchedig Michael Jones, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru St Ioan Fedyddiwr, Aberdâr, y pennaeth, Dr Susan Mitchell, y staff a'r disgyblion

Dydd Mercher 18 Tachwedd: Hilda (680), Abades

Datguddiad 4:1-11; Salm 150; Luc 19:11-28

Gweddiwn dros: Caersallog (Lloegr), y Gwir Barchedig Nicholas Holtam

Canghellor yr Esgobaeth, Andrew Keyser (Cwnsler y Frenhines)

Dydd Iau 19 Tachwedd: Elisabeth o Hwngari (1231), Tywysoges

Datguddiad 5:1-10; Salm 149:1-5; Luc 19:41-44

Gweddiwn dros: Sambalpur (Gogledd India), y Gwir Barchedig Pinuel Dip

Plwyf Aberaman a Chwmaman, y Parchedig Matthew Gibbon (Ficer)

Dydd Gwener 20 Tachwedd:

Datguddiad 10:8-11; Salm 119:65-72; Luc 19:45-48

Gweddiwn dros: San Diego (yr Eglwys Esgobol), y Gwir Barchedig Dr Katharine Schori

Plwyf Abercynon, y Parchedig Peter Lewis (Ficer)

Dydd Sadwrn 21 Tachwedd: Peulin (5ed ganrif), Abad

Datguddiad 11:1-12; Salm 144:1-10; Luc 20:27-40

Gweddiwn dros: San Joaquin (yr Eglwys Esgobol), y Gwir Barchedig David Rice

Plwyf Aberpennar a Meisgyn, y Parchedig Ganon Michael Jones (Ficer)